Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu o Bractis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Meddygfa Ceinewydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad yr arolygiad: 16 Hydref 2023

Dyddiad cyhoeddi: 16 Ionawr 2024





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-83577-410-6



© Hawlfraint y Goron 2024

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........................................................ 5

2. Crynodeb o'r arolygiad ........................................................ 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ........................................................ 9

- Ansawdd Profiad y Claf ........................................................ 9
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol ........................................................ 13
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........................................................ 16

4. Y camau nesaf ........................................................ 19

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ............... 20

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........................................................ 21

Atodiad C – Cynllun gwella ........................................................ 23

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa Ceinewydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 16 Hydref 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC a thri adolygydd cymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 32 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Roedd yn amlwg bod y staff ym Meddygfa Ceinewydd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth gofalgar a phroffesiynol i gleifion. Gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion a'u gofalwyr mewn ffordd gwrtais a chadarnhaol, a siaradodd ymatebwyr holiadur AGIC hefyd yn gadarnhaol am y gofal a gawsant.

Roedd amrywiaeth helaeth o wybodaeth hybu iechyd ar gael i gleifion yn ardal aros y practis, gyda'r rhan fwyaf wedi'i harddangos yn ddwyieithog. Roedd nifer o aelodau o'r staff yn y practis yn siarad Cymraeg.

Roedd y practis yn cynnig hygyrchedd da i bob claf. Roedd y practis cyfan yn cynnig mynediad llawr gwaelod, yn ogystal â thoiled i bobl anabl a mannau parcio yn uniongyrchol y tu allan i'r brif fynedfa.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ailgyfeirio'r holl alwadau o'r ddesg flaen, fel nad oes neb yn yr ardal aros yn clywed unrhyw alwadau yn ddamweiniol.
- Ffitio sgrin breifatrwydd ar y cyfrifiadur ar y ddesg flaen.
- Rheolwr y practis yn darparu bathodynnau 'Iaith Gwaith', er mwyn dangos i'r cleifion fod y staff yn siarad neu'n dysgu Cymraeg.
- Rheolwr y practis yn sicrhau bod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael ei ddatblygu cyn gynted â phosibl.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Mae ystod helaeth o wybodaeth hybu iechyd ar gael i'r cleifion
- Roedd holl staff y dderbynfa wedi cwblhau hyfforddiant ar lywio gofal
- Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch tra'r oeddent yn y practis.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Roedd pob ystafell glinigol yn y practis o faint priodol ac yn daclus ar y cyfan. Roedd gan y practis gyfleusterau golchi dwylo addas ym mhob ystafell ymolchi, a thapiau a gaiff eu gweithredu â'r penelin yn yr ystafelloedd trin ac ymgynghori. Caiff pob bin yn y practis ei weithredu â'r droed ac roedd yn amlwg fod yr amgylchedd wedi'i ddodrefnu er mwyn gallu glanhau'n effeithiol. Roedd lloriau

caled addas wedi'u ffitio ym mhob ardal glinigol ac roedd modd sychu pob arwyneb yn lân.

Wrth edrych ar gofnodion y staff, cadarnhawyd bod brechlynnau Hepatitis B pob aelod perthnasol o'r staff yn gyfredol.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Cadarnhaodd ein hadolygiad o gofnodion hyfforddiant staff nad oedd yr un aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch tân ac nad oedd staff anghlinigol wedi cwblhau hyfforddiant diogelu. Dylai rheolwr y practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol diweddaraf.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r staff sicrhau y caiff y cwpwrdd glanhau ei dacluso ac y caiff mopiau eu storio'n briodol
- Dylai rheolwr y practis adolygu'r cynllun parhad busnes a'i ddiweddaru
- Dylai uwch-aelodau o'r staff drefnu Profion Offer Cludadwy (Profion PAT) ar gyfer yr holl ddyfeisiau a chyfarpar perthnasol
- Dylai uwch-aelodau o'r staff sicrhau cysondeb yn lefel y manylion a gofnodir yng nghofnodion y cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu cynhwysfawr a chyfredol ar waith yn y practis
- Roedd gan y practis bolisi atal a rheoli heintiau cynhwysfawr ar waith
- Roedd brechlynnau Hepatitis B pob aelod perthnasol o'r staff yn gyfredol.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Yn dilyn trafodaethau â staff y practis, roedd yn amlwg eu bod yn ymrwymedig i ddarparu gofal da i'r cleifion a'u bod yn awyddus i gyflawni eu rolau'n effeithiol.

Gwelsom dystiolaeth fod cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal a bod cofnodion yn cael eu cymryd. Roedd cofrestr polisïau gynhwysfawr ar waith yn y practis hefyd. Roedd pob polisi ar gael yn hawdd i'r staff drwy yriant a rennir.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai rheolwr y practis roi rhaglen llesiant swyddogol ar waith
- Dylai'r staff gwblhau hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth, a Dyletswydd Gonestrwydd

- Dylai rheolwr y practis roi system arfarniadau fwy cadarn ar waith ar gyfer staff clinigol ac anghlinigol
- Dylai rheolwr y practis ddatblygu polisi pryderon penodol ar gyfer y practis.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom dystiolaeth fod strwythur rheoli clir ar waith yn y practis.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Ar ddiwrnod yr arolygiad, siaradodd ein harolygwyr â chleifion hefyd er mwyn cael gwybod am eu profiadau yn y practis. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*"Gwasanaeth a gofal rhagorol."*

"Mae pob aelod o'r staff yn ystyriol ac o help mawr bob amser."

Gwnaethom ofyn beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

*"Byddai'n well gennyf fod wedi cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb ond ni chynigiwyd un i mi."*

### Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

**Hybu Iechyd**
Gwelsom fod amrywiaeth eang o wybodaeth hybu iechyd ysgrifenedig ar gael i gleifion ym Meddygfa Ceinewydd. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am roi'r gorau i smygu a rheoli pwysau, ac roedd hyn i gyd ar gael yn yr ardal aros.

Er nad oedd gweithwyr iechyd meddwl penodol yn gweithio allan o'r practis, gwnaethom sylwi bod gwybodaeth iechyd meddwl helaeth yn cael ei harddangos yn yr ardal aros. Roedd manylion cyswllt ar gyfer cymorth iechyd meddwl brys a'r tu allan i oriau i'w gweld, yn ogystal â gwybodaeth am sefydliadau cymorth penodol.

O blith y 32 o ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC, dywedodd 20 wrthym eu bod yn 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' fod gwybodaeth hybu iechyd yn cael ei harddangos yn y practis. Anghytunodd un claf â hyn ac ni wnaeth 11 claf ymateb i'r cwestiwn hwn.

Rhoddodd rheolwr y practis wybodaeth am y cysylltiadau helaeth sydd gan y practis â phartneriaid gofal iechyd. Mae ymwelwyr iechyd a staff ciropodi yn

cynnal clinigau wythnosol yn y practis ac mae gwaedydd rhan amser yn y practis hefyd.

Dywedwyd wrthym am y broses a oedd ar waith i reoli rhaglen frechu'r gaeaf. Dywedodd rheolwr y practis wrthym mai dim ond brechlynnau ffliw oedd yn cael eu cynnig eleni, a bod y rhain eisoes wedi'u harchebu. Caiff brechlynnau eu storio yn yr oergelloedd diweddaraf yn y practis, a chaiff tymereddau oergelloedd eu monitro ddwywaith y dydd. Dywedwyd wrthym fod dros 2000 o lythyron wedi'u hanfon at gleifion i drefnu apwyntiad ar gyfer eu brechlyn.

**Gofal urddasol a pharchus**

Roedd yn amlwg bod ystafelloedd clinigol yn rhoi lefelau preifatrwydd priodol i gleifion. Gwnaethom nodi bod drysau ystafelloedd y clinig yn cael eu cadw ar gau yn ystod ymgynghoriadau ac roedd llenni preifatrwydd ar gael ym mhob ystafell.

Gwelsom staff y dderbynfa yn croesawu cleifion mewn modd proffesiynol a chyfeillgar. Rhoddodd y staff wybod i ni fod yr holl alwadau'n mynd i swyddfa gefn y dderbynfa, desg y dderbynfa flaen a'r swyddfa weinyddol ar y llawr uchaf. Dywedwyd wrthym fod y staff yn cael cyfarwyddyd ond i ateb y ffôn ar ddesg y dderbynfa os bydd yr ardal aros yn wag. **Fodd bynnag, rydym yn dal i argymell y dylid ailgyfeirio'r galwadau o'r ddesg flaen.**

Yn ystod ein taith o'r lleoliad, gwelsom fod y cyfrifiadur ar y ddesg flaen yn weladwy i gleifion, a hynny oherwydd ongl y ddesg a'r sgrin. Newidiodd y staff ongl y sgrin yn ystod ein hymweliad i'w chuddio o olwg y cyhoedd, **ond rydym yn argymell gosod sgrin breifatrwydd cyn gynted â phosibl.**

O'r 32 o gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC, roedd 22 ohonynt yn teimlo eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch. Roedd dau glaf yn anghytuno â hyn, atebodd 4 'ddim yn berthnasol' ac ni roddodd 4 unrhyw ateb. Dywedodd 13 o'r cleifion fod mesurau'n cael eu cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd, anghytunodd dau glaf â hyn ac atebodd saith 'ddim yn berthnasol'. Ni wnaeth y cleifion a oedd yn weddill roi ateb.

Gwnaethom nodi bod y practis hefyd yn cynnig gwasanaeth hebryngwr i'r cleifion, a oedd yn cael ei gyflawni gan aelodau o staff penodol, wedi'i hyfforddi. Roedd gwybodaeth am hyn wedi'i harddangos yn glir yn yr ardal aros.

## Amserol

**Gofal Amserol**

Roedd Meddygfa Ceinewydd ar agor rhwng 8am a 6:30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Gallai cleifion drefnu apwyntiad yn y feddygfa dros y ffôn neu yn bersonol wrth ddesg y dderbynfa.

Gwnaethom adolygu'r prosesau sydd ar waith i sicrhau y gall cleifion gysylltu â'r practis dros y ffôn mewn modd amserol. Rhoddodd y staff wybod i ni fod llinellau digyfyngiad yn dod i mewn i'r system a bod galwadau'n cael eu cyfeirio at sawl ffôn drwy'r practis. Rhoddwyd ystadegau mynediad i ni, a oedd yn dangos bod yr holl alwadau wedi cael ateb o fewn cyfnod o ddwy funud.

Cadarnhawyd bod pob derbynnydd wedi cwblhau hyfforddiant ar lywio gofal. Roedd siartiau llif perthnasol a llawn gwybodaeth ar gael hefyd, ac roeddent yn cael eu dangos yn glir i'r staff.

Dywedodd 30 o ymatebwyr yr holiadur wrthym eu bod yn fodlon ar oriau agor y practis. Gallai dros hanner y cleifion a atebodd gael apwyntiad ar yr un diwrnod pan oedd angen iddynt weld meddyg teulu ar frys (16/23), a dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a atebodd y gallent gael apwyntiadau arferol pan oedd eu hangen arnynt (23/28). Ni wnaeth y cleifion a oedd yn weddill ateb y cwestiynau hyn.

## Teg

**Cyfathrebu ac iaith**
Dywedodd rheolwr y practis wrthym am y dulliau cyfathrebu a ddefnyddir i rannu gwybodaeth â chleifion. Yn ogystal â siarad â chleifion wyneb yn wyneb, byddai'r staff yn anfon llythyron atynt i rannu gwybodaeth benodol pe bai angen. Yn ogystal, rhoddwyd y wybodaeth berthnasol ddiweddaraf ar dudalen Facebook y practis.

Roedd yn amlwg bod y staff yn mynd ati i sicrhau bod anghenion cleifion unigol yn cael eu diwallu. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod cleifion awtistig yn cael cynnig apwyntiadau ar adegau tawelach. Yn ogystal, cawsom wybod y bydd staff y dderbynfa a'r staff gweinyddol yn ceisio cael cleifion i weld yr un clinigydd pe byddent yn gofyn.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis ddolen sain sefydlog a symudol ar waith yn y practis. Rhoddodd rheolwr y practis wybod i ni fod cynlluniau i roi braille ar waith, er mwyn helpu cleifion ag amhariad ar y golwg i symud o gwmpas yr adeilad.

Roedd yr holl wybodaeth a oedd wedi'i harddangos yn yr ardal aros ar gael yn ddwyieithog. Roedd sawl aelod o staff a oedd yn siarad Cymraeg yn y practis hefyd ond nid oedd pob un ohonynt yn gwisgo bathodynnau Iaith Gwaith. **Gwnaethom**

**argymell bod rheolwr y practis yn sicrhau bod bathodynnau ar gael i'r holl staff sy'n siarad Cymraeg.**

Dywedodd y staff wrthym y byddai dogfennau print bras a hawdd eu deall yn cael eu darparu ar gais. Roedd gwasanaeth cyfieithu hefyd ar gael i'r practis drwy'r bwrdd iechyd lleol.
O blith y saith ymatebydd a gwblhaodd holiadur, dywedodd pump wrthym eu bod yn cael cynnig y cyfle i siarad Cymraeg yn ystod eu hapwyntiad. Yn ogystal, o'r chwe ymatebydd a atebodd, dywedodd pob un wrthym fod gwybodaeth gofal iechyd ar gael iddynt yn Gymraeg.

**Hawliau a Chydraddoldeb**

Roedd y practis yn cynnig hygyrchedd da i bob claf. Roedd y practis cyfan yn cynnig mynediad llawr gwaelod, yn ogystal â thoiled i bobl anabl a mannau parcio yn uniongyrchol y tu allan i'r brif fynedfa.

Gwelsom bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth y practis a chadarnhawyd ei fod yn gyfredol ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Gwnaethom gadarnhau fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Fodd bynnag, nid oedd gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith. **Gwnaethom godi'r mater hwn gyda rheolwr y practis a gofyn iddynt ddatblygu un cyn gynted â phosibl.**

Roedd hi'n amlwg bod y practis yn cymryd camau rhagweithiol i barchu hawliau cleifion trawsryweddol. Cadarnhaodd y staff fod rhagenwau ac enwau a ffefrir bob amser yn cael eu defnyddio. Roedd y system cofnodion electronig yn nodi rhagenwau ac enwau a ffefrir cleifion trawsryweddol.

O blith y 32 a gwblhaodd holiaduron AGIC, roedd 26 o gleifion yn teimlo y gallent gael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir. Roedd tri chlaf yn anghytuno â hyn a gwnaeth tri hepgor y cwestiwn hwn.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

**Rheoli Risg**
Gwelsom fod y rhan fwyaf o ardaloedd y practis yn lân a thaclus ar y cyfan. Fodd bynnag, gwelsom fod y cwpwrdd glanhau yn flêr a bod y mopiau yn cael eu storio yn eu bwcedi, yn hytrach na'u gosod wrth y waliau. **Gwnaethom godi'r mater hwn gyda rheolwr y practis a gofyn am i'r cwpwrdd gael ei dacluso a'r mopiau eu storio o hyn ymlaen.**

Wrth edrych ar bolisïau a dogfennau allweddol y practis, gwnaethom nodi bod y cynllun parhad busnes wedi darfod ers tair blynedd. **Gwnaethom godi'r mater hwn gyda rheolwr y practis ac argymell bod y ddogfen yn cael ei hadolygu a'i diweddaru cyn gynted â phosibl.**

Dywedwyd wrthym mai rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am dderbyn holl rybuddion diogelwch y cleifion. Yna, cawsant eu hanfon at yr holl staff clinigol a'u cadw'n ddiogel ar yriant a rennir, y mae modd i'r holl staff gael gafael arno. Cadarnhaodd rheolwr y practis y caiff unrhyw wersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau diogelwch cleifion eu rhannu mewn cyfarfodydd staff.

Wrth edrych ar gofnodion y staff, gwelsom nad oedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch tân. Gwnaethom godi hyn fel mater brys gyda'r lleoliad, ond ers hynny, rydym wedi gweld tystiolaeth bod pob aelod o'r staff naill ai wedi cwblhau neu wedi trefnu i gwblhau'r hyfforddiant perthnasol.

Roedd pob un o'r cleifion a atebodd o'r farn bod lleoliad y feddygfa yn ‘lân iawn’ (23/24) neu'n ‘lân’ (1/24).

Gwelsom dystiolaeth fod arwyddion priodol yn cael eu harddangos o gwmpas y practis i rybuddio staff a chleifion am unrhyw beryglon. Yn ogystal, yn ystod ein taith o'r lleoliad, gwnaethom nodi bod pob cynhwysydd offer miniog wedi'u gosod yn sownd wrth y wal a bod cynwysyddion llawn yn cael eu storio'n ddiogel, yn barod i'w gwaredu.

**Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi**
O'r cleifion a gwblhaodd ein holiadur, dywedodd 24 wrthym fod hylif diheintio dwylo bob amser ar gael iddynt yn y practis. Ni wnaeth yr wyth claf a oedd yn weddill roi ateb. At hynny, roedd 20 o gleifion yn cytuno bod y staff gofal iechyd

yn golchi eu dwylo cyn ac ar ôl eu trin ac atebodd 3 ‘ddim yn berthnasol’. Gwnaeth yr ymatebwyr a oedd yn weddill hepgor y cwestiwn hwn.

Gwelsom gyfleusterau golchi dwylo addas ym mhob ystafell ymolchi, a thapiau a gaiff eu gweithredu â'r penelin yn yr ystafelloedd trin ac ymgynghori. Roedd pob bin yn y practis yn cael ei weithredu â'r droed ac roedd yr amgylchedd wedi'i ddodrefnu er mwyn gallu glanhau'n effeithiol. Roedd lloriau caled addas wedi'u ffitio ym mhob ardal glinigol ac roedd modd sychu pob arwyneb yn lân.

Roedd gan y practis bolisi atal a rheoli heintiau cynhwysfawr ar waith. Roedd yn amlwg o'r sgyrsiau â'r staff eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran cynnal safonau atal a rheoli heintiau ac roedd gan y practis arweinydd atal a rheoli heintiau dynodedig ar waith hefyd.

Wrth edrych ar gofnodion y staff, cadarnhawyd bod brechlynnau Hepatitis B pob aelod perthnasol o'r staff yn gyfredol.

**Rheoli Meddyginiaethau**

Gwnaethom edrych ar y trefniadau sydd ar waith er mwyn sicrhau bod padiau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd yr holl badiau presgripsiwn yn cael eu cadw mewn cwpwrdd wedi'i gloi yn yr ystafell staff, ac roedd taflen gofnodi'n cael ei chynnal er mwyn cadw golwg ar bob pad presgripsiwn gwag. Cadarnhaodd yr uwch aelodau o staff, pe bai meddyg teulu yn gadael y practis, byddai ei bad presgripsiynau yn cael ei ddarnio ar y safle er mwyn ei atal rhag cael ei ddefnyddio yn y dyfodol.

Rhoddodd y staff dystiolaeth i ni fod profion PAT wedi'u cynnal ar gyfer pob oergell yn y practis, a ddefnyddir i storio brechlynnau. Gwnaethom hefyd gadarnhau bod tymheredd yn cael ei wirio'n ddyddiol a'i gofnodi mewn cofnodlyfr.

**Diogelu Plant ac Oedolion**

Gwelsom dystiolaeth bod polisïau a gweithdrefnau diogelu cynhwysfawr ar waith yn y practis. Roedd y rhain yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol ac yn nodi enw arweinydd diogelu'r practis yn glir.

Wrth edrych ar gofnodion y staff, gwelsom nad oedd staff anghlinigol wedi cwblhau hyfforddiant diogelu. Gwnaethom godi'r pryder hwn gyda'r lleoliad ar unwaith ond ers hynny, rydym wedi gweld tystiolaeth fod yr holl staff naill ai wedi cwblhau neu wedi trefnu i gwblhau'r hyfforddiant perthnasol.

**Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol**

Cawsom wybod gan nyrsys y practis mai nhw oedd yn gyfrifol am gynnal gwiriadau ar ddyfeisiau a chyfarpar meddygol. Cafodd dogfennau ysgrifenedig eu cynnal i gofnodi'r gwiriadau sy'n cael eu cynnal ar gyfarpar a dyfeisiau.

Er i ni weld fod yr holl gyfarpar mewn cyflwr da, gwnaethom nodi bod angen profion PAT ar rai ohonynt. **Gwnaethom godi hyn gyda'r uwch aelodau o staff a gofyn am drefnu profion PAT ar yr holl ddyfeisiau a chyfarpar perthnasol ar unwaith.**

Gwnaethom hefyd edrych ar y cyffuriau a'r cyfarpar brys a oedd yn cael eu cadw yn y practis yn ystod ein harolygiad. Gwnaethom nodi bod dyddiad yr holl gyffuriau yn gyfredol a bod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal yn fisol ar gyfer cyffuriau brys ac yn ddyddiol ar gyfer y diffibriliwr allanol awtomataidd. Roedd gan y Diffibriliwr Allanol Awtomataidd ddigon o badiau ac roedd dyddiad pob un ohonynt yn gyfredol.

## Effeithiol

### Gofal Effeithiol

Roedd yn amlwg bod gan y practis dîm o staff ymrwymedig a gofalgar a oedd yn ymdrechu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Roedd y practis yn sicrhau bod staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am arferion gorau, canllawiau cenedlaethol a phroffesiynol, a ffyrdd newydd o weithio. Byddai newidiadau i'r canllawiau yn cael eu cyfleu i staff naill ai drwy gyfarfodydd tîm, trwy e-bost, cyfarfodydd clwstwr ac aelodaeth o sefydliadau proffesiynol.

### Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion meddygol electronig deg claf fel rhan o'n harolygiad. Roedd y rhain yn cael eu storio'n briodol a'u diogelu rhag mynediad anawdurdodedig.

Roedd cofnodion y cleifion yn glir ac yn cael eu cadw i safon dda ar y cyfan. Fodd bynnag, amlygodd ein hadolygiad rai anghysondebau yn lefel y manylder a ddarparwyd yng nghofnodion y cleifion yn dilyn apwyntiadau. **Gwnaethom godi hyn gyda'r aelodau o uwch staff a gwnaethom ofyn iddynt geisio bod yn gyson wrth gofnodi manylion yng nghofnodion y cleifion.**

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth

**Llywodraethu ac arweinyddiaeth**
Mae Meddygfa Ceinewydd yn rhan o ardal Clwstwr De Ceredigion a Dyffryn Teifi, ac mae'n eiddo i ddau feddyg teulu sy'n bartneriaid ac yn cael ei gweithredu ganddynt. Roedd yn amlwg bod pob aelod o'r staff yn deall ei rôl a'i gyfrifoldebau'n llawn, a bod llinellau atebolrwydd clir ar waith yn y practis.

Rhoddwyd tystiolaeth i ni fod cyfarfodydd staff wythnosol yn cael eu cynnal a bod cofnodion manwl yn cael eu cymryd. Roedd gwybodaeth hefyd yn cael ei rhannu ymhlith staff drwy negeseuon e-bost, hysbysfwrdd staff a grŵp WhatsApp i staff.

Roedd y practis yn cadw cofrestr gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau. Roedd enwau a chynnwys pob polisi a adolygwyd yn glir a dywedwyd wrthym fod y staff yn cael mynediad i bob dogfen berthnasol drwy yriant a rennir.

Rhoddodd rheolwr y practis wybod i ni eu bod yn bwriadu rhoi rhaglenni lles staff ar waith, ond nid oes rhai ar waith ar hyn o bryd. **Rydym yn argymell bod rheolwr y practis yn rhoi rhaglen llesiant swyddogol ar waith cyn gynted â phosibl.**

Dywedwyd wrthym mai'r prif heriau a phwysau a wynebwyd gan y practis ar adeg ein hymweliad oedd anawsterau o ran recriwtio meddygon a'r angen am fwy o ofod clinigol. Rhoddodd rheolwr y practis wybod i ni eu bod yn hysbysebu am feddygon ar hyn o bryd, ond nid oes ceisiadau wedi dod i law.

## Y Gweithlu

**Gweithlu medrus a galluog**
Gwnaethom siarad â staff ar draws amrywiaeth o rolau a oedd yn gweithio yn y practis. Roedd yn amlwg bod pob un ohonynt yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i gleifion.

Gwnaethom nodi hefyd nad oedd y staff ym Meddygfa Ceinewydd wedi cwblhau hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth, a Dyletswydd Gonestrwydd. **Gwnaethom godi hyn gyda rheolwr y practis ac argymell bod y staff yn cwblhau'r hyfforddiant perthnasol cyn gynted â phosibl.**

Gwelsom dystiolaeth o wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyfredol ar gyfer pob aelod o'r staff. Hefyd, roedd gan reolwr y practis fatrics hyfforddiant ar

waith i olrhain hyfforddiant gorfodol y staff. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oes gan y practis system swyddogol ar waith ar gyfer arfarniadau. **Gwnaethom ofyn i reolwr y practis roi system arfarniadau fwy cadarn ar waith i staff clinigol ac anghlinigol o hyn ymlaen.**

Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn teimlo'n gyfforddus i godi pryder pe bai angen. Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith yn y practis. Roedd hwn wedi'i adolygu'n ddiweddar ac ar gael i bob aelod o'r staff.

## Diwylliant

**Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu**
Wrth gael ein tywys o amgylch y lleoliad, nodwyd gennym fod y ddogfen Gweithio i Wella yn cael ei dangos yn glir yn yr ardal aros. Er bod taflenni gwybodaeth a Dyletswydd Gonestrwydd y practis yn cynnwys gwybodaeth am y ffordd y mae'r practis yn ymdrin â phryderon, gwnaethom nodi nad oedd polisi cwynion ffurfiol ar waith yn y lleoliad. **Gwnaethom godi hyn gyda rheolwr y practis a gwnaethom argymell eu bod yn defnyddio'r wybodaeth hon a'r ddogfen gweithio i wella i ddatblygu polisi penodol i'r practis.**

Cafodd y practis adborth gan gleifion drwy holiaduron sydd ar gael yn y dderbynfa. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn anfon holiaduron i gleifion eu cwblhau'n rheolaidd.

Rhoddodd yr uwch-aelodau o'r staff wybod i ni am y trefniadau sydd ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Ddyletswydd Gonestrwydd. Roedd polisi Dyletswydd Gonestrwydd ar waith yn y practis a oedd yn unol â'r gofynion a amlinellir yn y canllawiau.

## Gwybodaeth

**Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol**
Gwelsom dystiolaeth bod systemau ar waith i sicrhau bod data a gwybodaeth o ansawdd uchel yn cael eu casglu, eu rhannu a'u cofnodi. Dywedwyd wrthym fod swyddog diogelu data ar gael i'r practis drwy'r bwrdd iechyd lleol.

## Dysgu, gwella ac ymchwil

**Gweithgareddau gwella ansawdd**
Gwnaethom edrych ar archwiliadau clinigol a gynhaliwyd gan y practis. Roedd y practis wedi cynnal archwiliadau hylendid dwylo, ond nid oedd archwiliadau ffurfiol yn cael eu cynnal ar gyfer atal a rheoli heintiau neu reoli gwastraff.

**Gwnaethom godi hyn gyda rheolwr y practis a gofyn am i'r rhain gael eu cwblhau cyn gynted â phosibl.**

## Dull systemau cyfan

**Gweithio mewn partneriaeth a datblygu**
Dywedodd y staff wrthym fod amryw gyfarfodydd amlddisgyblaethol yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau rhyngweithio ac ymgysylltu effeithiol â phartneriaid gofal iechyd. Dywedwyd wrthym fod y practis yn gweithio'n agos gyda'r clwstwr meddygon teulu er mwyn meithrin dealltwriaeth a rennir o'r heriau a wynebir yn y system ac anghenion y boblogaeth.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae’n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi’n glir sut yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i’r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a’r cyhoedd yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw’r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o’r sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| **Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol** | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Meddygfa Ceinewydd

## Dyddiad yr arolygiad: 16/10/2023

Mae’r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae’n eu cymryd.

| Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Wrth edrych ar gofnodion hyfforddiant staff, cadarnhawyd nad oedd unrhyw aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant ar ddiogelwch tân.**<br><br>**Gwelsom hefyd nad oedd staff anghlinigol a oedd yn gweithio ym Meddygfa Ceinewydd wedi cwblhau hyfforddiant diogelu.** | Rhaid i reolwr y practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch tân a hyfforddiant diogelu cyfredol. | Dylai'r holl staff gwblhau cwrs hyfforddiant Diogelwch Tân “Learning@Wales” neu gwrs cyfatebol cydnabyddedig erbyn 25 Hydref.<br><br>Dylai tystysgrifau gael eu darparu fel tystiolaeth.<br><br>Dylai'r holl staff clerigol gwblhau cwrs hyfforddiant Lefel 2 Diogelu “Learning@Wales” a chyflwyno tystysgrifau fel tystiolaeth i AGIC. | Rheolwr y Practis<br><br>(Pete Kemp)<br><br>Rheolwr y Practis<br><br>(Pete Kemp) | Diogelwch Tân<br><br>I'w gwblhau erbyn<br><br>25 Hydref.<br><br>Diogelu<br><br>Bydd Lefel 2 yn cael ei<br><br>gwblhau erbyn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer 31 Hydref a 7 Tachwedd | | 15 Tachwedd. |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

**Gwasanaeth: Meddygfa Ceinewydd**

**Dyddiad yr arolygiad: 16/10/2023**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Rhoddodd y staff wybod i ni fod yr holl alwadau'n mynd i ddesg y dderbynfa flaen, yn ogystal â swyddfa gefn y dderbynfa a'r swyddfa weinyddol ar y llawr uchaf. | Rydym yn argymell ailgyfeirio'r holl alwadau o'r ddesg flaen, fel nad oes neb yn yr ardal aros yn clywed unrhyw alwadau yn ddamweiniol. | Nodwyd yr angen i gadw'r dull grwpio ffonau presennol er mwyn galluogi ffonau'r ddesg flaen i ganu pan fydd galwadau ffôn yn dod i mewn, ond mae canllawiau newydd wedi'u cyhoeddi i'r holl staff osgoi ateb galwadau allanol ar y ddesg flaen pryd bynnag y bo'n bosibl. Mae lefel y sŵn canu ar y ffôn hwn hefyd wedi'i gostwng er mwyn annog hyn. | Rheolwr y Practis | Mae hyn wedi'i roi ar waith ond bydd yn parhau i gael ei fonitro. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yn ystod ein taith o'r lleoliad, gwelsom fod y cyfrifiadur ar y ddesg flaen yn weladwy i gleifion, a hynny oherwydd ongl y ddesg a'r sgrin. Fel ateb byrdymor, newidiodd y staff ongl y sgrin yn ystod ein hymweliad er mwyn ei chuddio o'r golwg. | Rydym yn argymell bod sgrin breifatrwydd yn cael ei ffitio ar y cyfrifiadur cyn gynted â phosibl. | Cyn gynted ag y tynnwyd sylw at hyn, daethpwyd o hyd i sgrin breifatrwydd addas ac fe'i harchebwyd a chafodd ei ffitio ychydig ddyddiau'n ddiweddarach. Mae hyn yn tynnu pob posibilrwydd o ddarllen y sgrin o ochr draw'r ddesg ac yn lleihau disgleirdeb i'r aelod o staff. | Rheolwr y Practis | Rhoddwyd hyn ar waith ond bydd yn parhau i gael ei fonitro os bydd monitorau'n cael eu disodli. |
| Roedd nifer o aelodau o staff a oedd yn siarad Cymraeg yn y practis hefyd, ond nid oedd pob un ohonynt yn gwisgo bathodynnau Iaith Gwaith. | Gwnaethom argymell y dylai rheolwr y practis sicrhau bod bathodynnau 'Iaith Gwaith' ar gael i bob aelod o staff sy'n siarad Cymraeg. | Rydym bellach wedi gofyn i Gomisiynydd y Gymraeg ddarparu bathodynnau a chortynnau gwddf. Pan fyddant yn dod i law, byddant ar gael i'r staff eu gwisgo gydag arwyddion i bwysleisio hyn. | Rheolwr y Practis | Mae'r bathodynnau a'r cortynnau gwddf wedi'u harchebu a dylent fod ar gael ac yn cael eu defnyddio erbyn diwedd mis Ionawr. |
| **Nid oedd gan y practis bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar waith.** | Dylai rheolwr y practis sicrhau bod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth | Roedd y feddygfa wedi mabwysiadu ac adolygu Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ddiweddar ond nid oedd | Rheolwr y Practis | Mae'r Polisi hwn bellach ar gael ac yn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | yn cael ei ddatblygu cyn gynted â phosibl | hwn ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad. Mae hwn bellach ar gael i bob aelod o'r staff. | | hygyrch i bob aelod o'r staff. |
| Gwelsom fod y cwpwrdd glanhau yn flêr a bod y mopiau yn cael eu storio yn eu bwcedi, yn hytrach na'u gosod wrth y waliau. | Wrth symud ymlaen, dylai'r staff sicrhau y caiff y cwpwrdd glanhau ei dacluso ac y caiff mopiau eu storio'n briodol. | Mae'r cwpwrdd glanhau yn eithaf bach ond roedd wedi'i aildrefnu ac roedd bachyn mopiau i'w osod ar y wal wedi'i archebu er mwyn gallu hongian mopiau uwchben y bwcedi priodol. | Rheolwr y Practis | Bydd y bachyn wal yn cael ei ffitio pan fydd yn cyrraedd a bydd cyflwr y cwpwrdd yn cael ei fonitro. |
| **Gwnaethom nodi bod dyddiad y cynllun parhad busnes wedi darfod ers tair blynedd.** | Gwnaethom argymell bod rheolwr y practis yn adolygu'r cynllun parhad busnes a'i ddiweddaru cyn gynted â phosibl | Mae Cynllun Parhad Busnes y feddygfa wedi'i arolygu ers hynny, cadarnhawyd ei fod yn gywir ac mae dyddiad “diwygiwyd diwethaf” wedi'i ychwanegu ato. | Rheolwr y Practis | Aed i'r afael â hyn ac mae bellach wedi'i gwblhau. |
| **Gwnaethom nodi bod angen profion PAT ar rai o'r dyfeisiau a'r cyfarpar meddygol.** | Dylai uwch-aelodau o'r staff drefnu Profion Offer Cludadwy ar gyfer yr holl ddyfeisiau a'r cyfarpar perthnasol ar unwaith. | Cyflawnodd Calibrate UK ein harchwiliad blynyddol sy'n cynnwys Profion PAT a Graddnodi ar 29 Tachwedd 2023. | Rheolwr y Practis | Mae'r broses flynyddol hon bellach wedi'i chwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Tynnodd ein hadolygiad o gofnodion cleifion sylw at rai anghysondebau yn lefel y manylder a ddarperir yng nghofnodion y cleifion yn dilyn apwyntiadau | Dylai uwch-aelodau o'r staff sicrhau cysondeb yn lefel y manylion a gofnodir yng nghofnodion y cleifion. | Mae hyn wedi'i drafod yn ein cyfarfod tîm Clinigol a chynghorwyd pob clinigydd i sicrhau y caiff digon o fanylion eu hychwanegu at nodiadau clinigol bob amser, yn hytrach na dibynnu ar ddogfennau neu gofnodion allanol eraill. | Rheolwr y Practis<br><br>Meddygon y Practis<br><br>Nyrsys y Practis | Aethpwyd i'r afael â'r mater hwn a bydd yn cael ei fonitro. |
| Dywedodd rheolwr y practis wrthym nad oes rhaglenni lles i staff ar waith ar hyn o bryd. | Rydym yn argymell bod rheolwr y practis yn rhoi rhaglen llesiant swyddogol ar waith cyn gynted â phosibl. | Ers tynnu sylw at hyn, mae hyn wedi'i godi mewn cyfarfodydd staff a phartneriaid a byddwn yn edrych i nodi opsiynau addas wrth symud ymlaen. | Dirprwy Reolwr y Practis | Mae hyn bellach yn mynd rhagddo ac yn barhaus gyda'r nod o gael rhywbeth ar waith erbyn mis Ebrill. |
| **Nid yw'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth na dyletswydd gonestrwydd eto.** | Gwnaethom ofyn bod y staff yn cwblhau'r hyfforddiant perthnasol cyn gynted â phosibl. | Mae hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth a dyletswydd gonestrwydd bellach wedi'i ychwanegu at y Matrics Hyfforddiant Staff a bwriedir i'r staff gwblhau'r hyfforddiant mewn grwpiau cyn gynted ag y bo'n gyfleus. | Rheolwr y Practis | Anelwn at gwblhau'r rhain erbyn mis Ebrill. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gwnaethom nodi nad oes gan y practis system swyddogol ar waith ar gyfer arfarniadau.** | Wrth symud ymlaen, dylai rheolwr y practis roi system arfarniadau fwy cadarn ar waith ar gyfer staff clinigol ac anghlinigol. | Mae arfarniadau staff clinigol bellach wedi'u cwblhau ac mae arfarniadau wedi'u strwythuro ar gyfer staff clerigol yn cael eu cynllunio. | Rheolwr y Practis | Dylid arfarnu'r staff presennol erbyn mis Ebrill, yna'n flynyddol, neu'n agos at ben-blwydd cyflogi'r aelodau o staff |
| **Nodwyd gennym nad oedd polisi cwynion ffurfiol ar waith yn y lleoliad.** | Bydd rheolwr y practis yn datblygu polisi pryderon penodol i'r practis cyn gynted â phosibl | Mae polisi cwynion presennol y practis a oedd yn cyfeirnodi polisïau Cwynion a Dyletswydd Gonestrwydd y Bwrdd Iechyd bellach wedi'i ddisodli â pholisi cynhwysfawr y feddygfa. | Rheolwr y Practis | Aed i'r afael â hyn ac mae bellach wedi'i gwblhau |
| | | | | |
| | | | | |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Pete Kemp**

**Teitl swydd: Rheolwr y Practis**

**Dyddiad: 14 Rhagfyr 2023**